Cyllid & Tollau EM

# Nwyddau'r tŷ a nwyddau personol a roddwyd i elusen

Atodlen IHT408

## Pryd i ddefnyddio'r ffurflen hon

Llenwch y ffurflen hon os yw'r bobl sydd wedi etifeddu nwyddau'r tŷ a nwyddau personol yr ymadawedig:

- yn dymuno rhoi rhai o'r nwyddau, neu'r nwyddau i gyd, i elusen gymwys
- yn dymuno didynnu eithriad elusen yn erbyn gwerth yr ystâd

Os byddwch yn llenwi'r ffurflen hon, ni fydd angen i chi gyflwyno Offeryn Amrywio (IOV) ffurfiol er mwyn didynnu eithriad elusen ar gyfer unrhyw nwyddau'r tŷ a nwyddau personol a roddwyd i elusen gan y buddiolwyr.

Ni ddylech lenwi'r ffurflen hon er mwyn didynnu eithriad elusen ar gyfer unrhyw nwyddau'r tŷ a nwyddau personol sy'n cael eu trosglwyddo i elusen o dan ewyllys yr ymadawedig.

## Gofynion ychwanegol

Os bu farw'r ymadawedig ar neu ar ôl 6 Ebrill 2012, mae'n rhaid i chi gyflwyno tystiolaeth gyda'r ffurflen hon bod yr elusen wedi cael y nwyddau a drosglwyddir iddi.

Rhaid i'r holl bobl sydd wedi etifeddu nwyddau'r tŷ a'r nwyddau personol lofnodi'r ffurflen hon.

## Elusennau cymwys

Mae elusen gymwys yn un sydd:

- wedi'i sefydlu yn yr Undeb Ewropeaidd neu wlad benodol arall
- yn bodloni diffiniad elusen o dan gyfraith Cymru a Lloegr
- â rheolwyr sy'n addas a phriodol i fod yn rheolwyr yr elusen
- yn cael ei rheoleiddio yn y wlad y mae wedi'i sefydlu ynddi, os yw hynny'n ofyniad yn y wlad honno

Enw'r ymadawedig

Dyddiad y farwolaeth DD MM BBBB

Cyfeirnod Treth Etifeddiant (os yw'n hysbys)

## Help

Darllenwch yr IHT400 Nodiadau cyn llenwi'r ffurflen hon.

I gael rhagor o wybodaeth neu help, neu i gael copi arall o'r ffurflen hon:

- ewch i **www.gov.uk/guidance/ffurflenni-cthem**
- ffoniwch Wasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEM ar **0300 200 1900** – os ydych yn ffonio o'r tu allan i'r DU, ffoniwch **+44 300 200 1900**

## Eich hawliau a'ch rhwymedigaethau

Mae 'Eich Siarter' yn egluro'r hyn y gallwch ei ddisgwyl gennym ni, a'r hyn a ddisgwyliwn gennych chi. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i **www.gov.uk/eichsiarter**

## Datganiad

Y mae gennyf i/gennym ni, sydd wedi llofnodi isod, yr hawl i nwyddau'r tŷ a nwyddau personol yr ymadawedig a enwir uchod o dan ewyllys/drwy ddiewyllysedd. Amrywir ewyllys/diewyllysedd yr ymadawedig, fel bod y canlynol yn gymwys:

- mae holl nwyddau'r tŷ a'r holl nwyddau personol yn mynd i'r elusen neu'r elusennau a ddangosir isod ☐
- dim ond nwyddau'r tŷ a'r nwyddau personol hynny a ddangosir yn yr atodlen dros y ddalen sy'n mynd i'r elusen neu'r elusennau a ddangosir isod ☐

Enw llawn yr elusen neu'r elusennau, y wlad lle y'i sefydlir a chyfeirnod CThEM ar gyfer yr elusen, os yw ar gael.

Fy mwriad/Ein bwriad yw y bydd darpariaethau Adran 142(1) o Ddeddf Treth Etifeddiant 1984 ac Adran 62(6) o Ddeddf Trethiant Enillion Trethadwy 1992 yn gymwys i'r amrywiad hwn.

**Person cyntaf**

Enw llawn

Llofnod

Dyddiad DD MM BBBB

**Ail berson**

Enw llawn

Llofnod

Dyddiad DD MM BBBB

**Trydydd person**

Enw llawn

Llofnod

Dyddiad DD MM BBBB

**Pedwerydd person**

Enw llawn

Llofnod

Dyddiad DD MM BBBB

## Atodlen o eitemau

Disgrifiwch unrhyw eitemau penodol a roddwyd i elusen. Er enghraifft, bwrdd bwyd a 4 cadair. Fel arall, gallwch gynnwys disgrifiad mwy bras, er enghraifft dillad, offer cegin, bocsys o addurniadau.

| Disgrifiad o'r eitem(au) | Enw'r elusen | Gwerth yr eitem(au) £ |
|---|---|---|
| | | |
| | | £ 0 |

Dylech gynnwys y swm hwn ar ffurflen IHT400, ym mlwch 92